# Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru
## Cofnodion y cyfarfod ddydd Mercher 12 a dydd Iau 13 Chwefror 2025

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Ian Rees | Cadeirydd ac aelod anweithredol |
| Adrian Crompton | Prif Weithredwr ac Archwilydd Cyffredinol Cymru |
| Alison Gerrard | Aelod anweithredol a Chadeirydd y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol |
| Anne Beegan | Aelod cyflogai etholedig |
| Chris Bolton | Aelod cyflogai etholedig |
| Darren Griffiths | Aelod cyflogai penodedig |
| David Francis | Aelod anweithredol, Uwch-gyfarwyddwr Annibynnol a Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg |
| Michael Norman | Aelod anweithredol |
| Richard Thurston | Aelod anweithredol |
| **Ymddiheuriadau:** | |
| **Yn bresennol:** | |
| Anne-Louise Clark | Cyfarwyddwr Gweithredu Cyfathrebu a Newid (EDCC) |
| Ann-Marie Harkin | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Archwilio (EDAS) |
| Kevin Thomas | Cyfarwyddwr Gweithredol Gwasanaethau Corfforaethol (EDCS) |
| Katherine Drysdale | Ysgrifennydd y Bwrdd (cofnodion) |
| Matthew Hockridge | Pennaeth Cynllunio ac Adrodd (eitemau 5 a 7) |
| Terry Jones | Rheolwr Datblygu a Chanllawiau Archwilio, Ansawdd a Pholisi (eitem 6) |
| Tom Haslam | Rheolwr Datblygu a Chanllawiau Archwilio, Archwilio Perfformiad (eitem 6) |
| Shelley Evans | Arweinydd Cyllid (eitem 7) |
| Laurie Davies | Pennaeth Gwasanaethau Busnes (eitem 12) |
| **Arsylwyr:** | |
| Cara Owen | Archwilydd Uwch (Perfformiad) (eitemau 1 i 6) |
| Tomos Jones | Archwilydd Uwch (Perfformiad) (eitemau 1 i 9) |

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 1 | Croeso ac ymddiheuriadau |
| 2 | Datganiadau o fuddiant |
| 3 | Adolygiad o gofnodion cyfarfodydd: 13 a 14 Tachwedd 2024 |
| 4 | Adolygiad o waith tracio camau gweithredu |
| 5 | Cynllun Blynyddol 2025-26 |
| 6 | Sganio’r Gorwel (Gwasanaethau Archwilio) |
| 7 | Adroddiad Perfformiad Integredig: Ch3 |
| 8 | Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Adroddiad gan y Cadeirydd |
| 9 | Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol: Adroddiad gan y Cadeirydd (rhan 1) |
| 10 | Diweddariad y Prif Weithredwr: ailgynllunio’r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Mercher 12 a dydd Iau 13 Chwefror 2025**

| Eitem | Agenda |
|---|---|
| 11 | Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol: Adroddiad gan y Cadeirydd (rhan 2) |
| 12 | Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol |
| 13 | Adroddiad y Cadeirydd, gan gynnwys Allbynnau'r Diwrnod Datblygu |
| 14 | Adolygiad o'r flaenraglen waith |
| 15 | Unrhyw faterion eraill |
| 16 | Adolygiad o'r cyfarfod |
| 17 | Dyddiad y cyfarfodydd nesaf |

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| **Eitemau Sefydlog** | | |
| **1** | **Croeso'r Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb** | |
| 1.1 | Croesawodd y Cadeirydd aelodau a'r rhai a oedd yn bresennol. | |
| 1.2 | Ar ran y Bwrdd, cydymdeimlodd y Cadeirydd o'r galon ag Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i deulu ar ei brofedigaeth deuluol ddiweddar. | |
| **2** | **Datganiadau o fuddiant** | |
| 2.1 | Fe wnaeth y Cyfarwyddwyr Gweithredol ddatgan buddiant yn eitem 10 (ailgynllunio'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol) a byddent yn gadael ar gyfer yr eitem hon. Fe wnaeth aelodau sy'n gyflogeion a staff eraill a oedd yn bresennol ddatgan buddiant yn eitem 11 (Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol: Adroddiad gan y Cadeirydd (rhan 2)) a oedd yn ymwneud â thâl. Nododd y Cadeirydd y bydau aelodau'r Bwrdd sy'n gyflogeion yn gadael ar gyfer yr eitem hon. Byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn aros drwy'r cyfarfod i gadw cofnodion. Byddai'r arsylwyr yn gadael cyn ystyriaeth o eitemau 10 ac 11. | |
| **3** | **Adolygiad o gofnodion cyfarfodydd: 13 a 14 Tachwedd 2024** | |
| 3.1 | Yn amodol ar fân gywiriad, cymeradwyodd y Bwrdd gofnodion ei gyfarfod ar 13 a 14 Tachwedd 2024 fel cofnod cywir. | |
| 3.2 | Nododd y Bwrdd bod y grŵp Strategaeth y Gymraeg wedi cael ei ailgynnull ac wedi datblygu cynllun gweithredu ar gyfer hyrwyddo a darparu Strategaeth y Gymraeg. | |
| **4** | **Adolygiad o waith tracio camau gweithredu** | |
| 4.1 | Derbyniodd y Bwrdd wybodaeth ddiweddaraf am gamau gweithredu y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn eu hadlewyrchu ar y traciwr. | |
| **5** | **Cynllun Blynyddol 2025-26** | |
| 5.1 | Cyflwynodd yr EDCC y Cynllun Blynyddol drafft wedi'i ddiweddaru ar gyfer 2025-26. Amlinellodd yr Archwilydd Cyffredinol y dull a fabwysiadwyd gan y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol i ddatblygu'r blaenoriaethau ar gyfer y | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Mercher 12 a dydd Iau 13 Chwefror 2025**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | flwyddyn i ddod, â llai o flaenoriaethau ond â phwyslais mwy pendant. Rhoddodd drosolwg o bob blaenoriaeth, a'r rhesymeg sy'n sail iddynt, ac esboniodd y byddai cynlluniau busnes manwl yn cael eu datblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r blaenoriaethau. | |
| 5.2 | Trafododd y Bwrdd:<br>• nifer a chynnwys y blaenoriaethau, a oedd wedi esblygu i adlewyrchu cynnydd ac i baratoi'r tir ar gyfer newidiadau a ragwelir;<br>• yr amserlenni ar gyfer cyflawni'r blaenoriaethau, gan awgrymu bod rheolwyr yn adolygu'r amserlen ar gyfer cyflawni'r drydedd flaenoriaeth ac ystyried a yw'r golofn ar gyfer 2027-28 yn angenrheidiol gan y byddai'r blaenoriaethau yn cael eu cyflawni dros ddwy flynedd;<br>• archwilio ymgysylltiad staff â'r cynllun blynyddol yn rhan o sioeau teithiol sydd i ddod; a'r<br>• cynulleidfaoedd allanol ar gyfer y Cynllun, gan nodi na ofynnwyd am adborth penodol gan randdeiliaid allanol ar y ddogfen, ond codwyd cwestiynau cysylltiedig yn yr arolwg rhanddeiliaid a chyflawnwyd gwaith craffu gan y Pwyllgor Cyllid trwy sesiynau tystiolaeth rheolaidd. | Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol / Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| 5.3 | Rhoddodd y Pennaeth Cynllunio ac Adrodd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ddatblygiad y Dangosyddion Perfformiad Allweddol a dywedodd y byddai'r Datganiad Parodrwydd i Dderbyn Risg yn cael ei ddiweddaru ar ôl cael ei adolygu gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg. | |
| 5.4 | Trafododd y Bwrdd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol gan annog rheolwyr i ystyried:<br>• y disgrifiadau o 'sut y bydd llwyddiant yn edrych' i gynnig eglurder o ran gwybodaeth i ddefnyddwyr y Cynllun;<br>• dangos y cysylltiad rhwng y blaenoriaethau a'r Dangosyddion Perfformiad Allweddol; a<br>• sut y gellid dangos cynnydd dros amser, er enghraifft, trwy ddangos llwyddiant yn erbyn targedau blaenorol. | Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol / Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| 5.5 | Nododd y Bwrdd y byddai'r Cynllun Blynyddol drafft terfynol yn cael ei gyflwyno ar gyfer cymeradwyaeth ym mis Mawrth 2025. | |
| **6** | **Sganio'r Gorwel (Gwasanaethau Archwilio)** | |
| 6.1 | Cyflwynodd yr EDAS yr wybodaeth ddiweddaraf am yr amgylchedd gweithredu archwiliadau ac amlinellodd sut y byddai'r broses Sganio'r Gorwel yn darparu fframwaith ar gyfer blaengynllunio ac i hysbysu cyflawniad y strategaeth pum mlynedd. | |
| 6.2 | Tynnodd y Rheolwr Datblygu a Chanllawiau Archwilio, Ansawdd a Pholisi sylw'r Bwrdd at faterion allweddol yn yr amgylchedd archwilio a'u goblygiadau i Archwilio Cymru, gan gynnwys: | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Mercher 12 a dydd Iau 13 Chwefror 2025**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • archwilio lleol yn Lloegr, yr ôl-groniad hanesyddol a chanlyniadau adolygiad Redmond a'r ymgynghoriad ar y System Archwilio Lleol;<br>• y Bil Diwygio Archwilio, ac argymhellion o adolygiadau Kingman, Brydon a CMA;<br>• ymateb y llywodraeth i'r Bil Diwygio Archwilio;<br>• newidiadau o fodelau ariannu partneriaeth traddodiadol yn y cwmnïau i fuddsoddiad ecwiti preifat;<br>• canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o ran Adrodd ar Sicrwydd Cynaliadwyedd;<br>• canfyddiadau sy'n dod i'r amlwg o Astudiaeth Marchnad Archwilio'r GIG yn Lloegr a'r effaith bosibl ar gapasiti'r farchnad (er bod gwahanol brosesau yn weithredol yn Lloegr);<br>• yr ymgynghoriad ar adolygiad y Cyngor Adrodd Ariannol o Fentrau Bach a Chanolig eu Maint; a<br>• Mynegai Ymddiriedaeth 2024 y Ganolfan Archwilio Buddiant Cyhoeddus. | |
| 6.3 | Mewn ymateb i gwestiwn ar ba un a fyddai newidiadau i ddulliau neu ddatblygiadau technolegol yn effeithio ar ofynion hyfforddi, esboniodd y Rheolwr Datblygu a Chanllawiau Archwilio, Ansawdd a Pholisi bod y cymhwyster craidd wedi cael ei addasu mewn ymateb i ddatblygiadau ac er y byddai gofynion o ran sgiliau arbenigol, roedd yn annhebygol y byddai unrhyw newid llwyr i'r gweithlu. | |
| 6.4 | Trafododd a nododd y Bwrdd y diweddariad a fyddai'n hysbysu'r adolygiad amgylcheddol ehangach a gwaith dadansoddi risg arfaethedig i gefnogi datblygiad yr Amcangyfrif a'r Cynllun Blynyddol ar gyfer 2025-26. | |
| **7** | **Adroddiad Perfformiad Integredig: Ch3** | |
| 7.1 | Cyflwynodd yr EDCC bapur, wedi'i gefnogi gan y Dangosfwrdd Gwybodaeth Rheolwr, a ddarparodd adroddiad perfformiad integredig chwarter tri. | |
| 7.2 | Gofynnodd yr EDAS am adborth ar ba un a oedd y Bwrdd yn fodlon â'r adroddiad naratif a ddarparwyd ar gyflawni archwiliadau neu a fyddai diweddariad gweledol yn dangos tueddiadau, yn nodi amrywiadau ac yn darparu esboniad perthnasol yn fwy gwerthfawr. Cytunodd y Bwrdd y byddai'r diweddariad gweledol yn fwy defnyddiol. | EDAS |
| 7.3 | Trafododd y Bwrdd y Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan gynnwys:<br>• Dangosydd Perfformiad Allweddol 1 a oedd bellach yn caniatáu ar gyfer addasiad i'r ffigurau fel na fyddai cyfrifon a dderbynnir yn hwyr yn cael eu cynnwys yn y mesuriad o berfformiad. Nododd y Bwrdd bod y Dangosydd Perfformiad Allweddol hwn yn mesur cyflawniad yn erbyn terfynau amser statudol, a oedd yn cael ei effeithio lle nad oedd cyrff yn cyflwyno eu cyfrifon yn brydlon. Esboniodd EDAS bod y newid yn cynnig eglurder gan fod cyrff sy'n cael eu harchwilio yn gyfrifol am | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Mercher 12 a dydd Iau 13 Chwefror 2025**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | fodloni'r gofynion statudol ar gyfer cyflwyno eu cyfrifon; er na allai archwilwyr sicrhau bod cyrff yn bodloni terfynau amser, fe wnaethant gadw mewn cysylltiad agos ac roedd yn ysgrifennu at gyrff lle'r oedd methiant i fodloni'r terfyn amser statudol.<br>• y sgoriau Coch Oren Gwyrdd ar gyfer cyflawni Dangosyddion Perfformiad Allweddol, gan nodi bod camau gweithredu ar waith i wella perfformiad lle'r oedd hynny o fewn rheolaeth Archwilio Cymru.<br>• Dangosydd Perfformiad Allweddol 16 yn ymwneud â chost arbedion, gan awgrymu y byddai naratif ategol o gymorth i gynnig cyd-destun. | EDCC / Pennaeth Cynllunio ac Adrodd |
| 7.4 | Fe wnaeth yr Arweinydd Cyllid grynhoi'r sefyllfa ariannol ac esboniodd y disgwyliwyd gwared ar ddiwedd y flwyddyn, er gwaethaf gwariant ychwanegol. Trafododd y Bwrdd:<br>• y sefyllfa ariannol gyffredinol, gan gynnwys yr arbedion a nodwyd, y tanwariant yn erbyn cyllidebau a gorgyflawniad incwm;<br>• y gwariant ychwanegol, gan geisio sicrwydd bod hwn wedi cael ei werthuso i sicrhau canlyniad gwerthfawr a nodi ei fod yn ymwneud yn bennaf â gwariant a gynlluniwyd a ddygwyd ymlaen;<br>• pa un a fyddai'n bosibl lliniaru lefelau uwch o incwm, gan nodi bod cyfleoedd i wneud hynny yn gyfyngedig;<br>• effaith swyddi gwag pellach posibl cyn dywed y flwyddyn ar y Dangosydd Perfformiad Allweddol i sicrhau gwarged o ddim mwy na 2% o wariant gros; byddai'r Arweinydd Cyllid yn gofyn i'r Pennaeth Cyllid adolygu effaith swyddi gwag pellach cyn diwedd y flwyddyn ar y rhagolwg, gan nodi bod esboniadau dilys os aethpwyd y tu hwn i'r goddefiant o 2%.<br>Roedd y Bwrdd yn awyddus i ddeall y rhesymau am yr achosion o danwariant a gorgyflawniad incwm a nododd bod y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi gofyn am ddadansoddiad fforensig ac y byddai'n ei ystyried. Roedd yn bryderus fodd bynnag fod cyfleoedd cyfyngedig i gynllunio gwariant ar yr adeg hon yn y flwyddyn i liniaru'r gwarged rhagweledig. | Pennaeth Cyllid |
| 7.5 | Rhoddodd yr EDCC drosolwg cryno o'r adroddiadau gweithlu a risg ac amlinellodd feysydd pwyslais presennol y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol. | |
| 7.6 | Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd. | |
| **8** | **Y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg: Adroddiad gan y Cadeirydd** | |
| 8.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg ei adroddiad yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 12 Rhagfyr 2024, ac amlygodd:<br>• y sicrwydd a ddarparwyd gan yr adolygiad archwilio mewnol o'r seilwaith TG, yr adroddiad ar gaffael ar gyfer y flwyddyn hyd yma a'r adroddiad ar symudiadau mantolenni; a | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Mercher 12 a dydd Iau 13 Chwefror 2025**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • bod y Pwyllgor wedi annog rheolwyr i ystyried mabwysiadu dull cryfach o bennu'r parodrwydd i dderbyn risg a byddai hyn yn cael ei ystyried ymhellach yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor.<br>Gwahoddodd y Bwrdd i gynnig ei fewnbwn ar bwnc ymchwiliad risg trwyadl nesaf y Pwyllgor. | |
| 8.2 | Rhoddodd yr EDCS ddiweddariad cryno ar ddarpariaeth y rhaglen Archwilio Mewnol a chamau gweithredu o ran argymhellion archwilio mewnol. Esboniodd bod sawl adroddiad archwilio mewnol wedi cael eu derbyn cyn cyfarfod mis Chwefror y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg, ond mai prin oedd yr amser a ganiatawyd i reolwyr ystyried sylwedd yr adroddiadau neu gynnig ymateb cyn y dyddiad terfyn papur ar gyfer y cyfarfod hwnnw. | |
| 8.3 | Fe wnaeth y Bwrdd<br>• gadarnhau ei fod yn fodlon i'r Pwyllgor gynnal ymchwiliad trwyadl â phwyslais i risg 28 (seilwaith TG);<br>• cymeradwyo'r dull arfaethedig o sicrhau achrediad Cyber Essential Plus erbyn diwedd mis Gorffennaf 2025; a<br>• nodi'r adroddiad fel arall, gan gynnwys y diweddariad ynghylch prydlondeb adroddiadau archwilio mewnol. | |
| **9** | **Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol: Adroddiad gan y Cadeirydd (rhan 1)** | |
| 9.1 | Cyflwynodd Cadeirydd y Pwyllgor adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol a gynhaliwyd ar 23 Ionawr 2025. Amlygodd bod y Pwyllgor yn parhau i fonitro prosesau rheoli perfformiad ac roedd wedi'i sicrhau ynghylch y trylwyredd yr oedd y modiwl system newydd yn cael ei ddatblygu a'i brofi ag ef. | |
| 9.2 | Nodwyd yr adroddiad gan y Bwrdd. | |
| **10** | **Diweddariad y Prif Weithredwr: ailgynllunio'r Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol (i'w olygu am resymau o gyfrinachedd, diogelu data a sensitifrwydd masnachol)** | |
| 10.1 | Gadawodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol y Cyfarfod. | |
| 10.2 | Golygwyd | |
| 10.3 | Golygwyd | |
| 10.4 | Golygwyd | |
| 10.5 | Golygwyd | |
| 10.6 | Golygwyd | |
| 10.6 | Ailymunodd y Cyfarwyddwyr Gweithredol â'r cyfarfod. | |
| **11** | **Y Pwyllgor Cydnabyddiaeth Ariannol ac Adnoddau Dynol: Adroddiad gan y Cadeirydd (rhan 2)** | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Mercher 12 a dydd Iau 13 Chwefror 2025**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | **(i'w olygu am resymau o gyfrinachedd a sensitifrwydd masnachol)** | |
| 11.1 | Gadawodd yr aelodau o'r Bwrdd sy'n Gyflogeion y cyfarfod. | |
| 11.2 | Golygwyd | |
| 11.3 | Golygwyd | |
| 11.4 | Golygwyd | |
| 11.5 | Ailymunodd yr aelodau o'r Bwrdd sy'n Gyflogeion â'r cyfarfod. | |
| **12** | **Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Archwilydd Cyffredinol** | |
| 12.1 | Cyflwynodd yr Archwilydd Cyffredinol a'r Prif Weithredwr ei ddiweddariad ac amlygodd:<br>• gyhoeddiad ei adroddiadau cenedlaethol ar gynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol a gwasanaethau canser, a sylw helaeth yn y wasg i'r adroddiad gwasanaethau canser; a'r<br>• rhaglen barhaus o ymgysylltu allanol a oedd yn cynnwys digwyddiadau GPX, sesiynau tystiolaeth mewn Pwyllgorau Senedd a derbyn dirprwyaethau o Kosovo ac Irac. | |
| 12.2 | Rhoddodd yr EDCS yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am adleoli swyddfa Gorllewin Cymru ac esboniodd bod y costau o ailwampio'r swyddfa newydd yn sylweddol uwch na'r gyllideb wreiddiol. Fodd bynnag, gan fod yr achos busnes yn dal i fod yn ddilys yn ariannol, ac y byddai'r symudiad yn cynnig amgylchedd gweithio mwy cynaliadwy a gwell, roedd y Tîm Arweinyddiaeth Gweithredol wedi cytuno i fwrw ymlaen fel y cynlluniwyd. Hefyd, roedd y landlord hefyd wedi dynodi'n annisgwyl ei fwriad o godi TAW ar y taliadau rhent. | |
| 12.3 | Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes ei bod angen cyfarwyddo'r contractwyr i fwrw ymlaen i gwblhau'r gwaith o ailwampio'r swyddfa yn y flwyddyn ariannol gyfredol, a'i bod yn gofyn am gymeradwyaeth y Bwrdd i roi'r cyfarwyddyd hwnnw, i ganiatáu'r symudiad i ddigwydd fel y bwriadwyd tra'n parhau i negodi o ran y TAW. Esboniodd na fu unrhyw ddisgwyliad blaenorol y byddai TAW yn cael ei chodi, ac roedd yn dal i fod yn aneglur a fyddai TAW yn parhau i gael ei chodi ar y rhent a/neu'r tâl gwasanaeth. | |
| 12.4 | Trafododd y Bwrdd y cynnydd i'r costau ailwampio, y rhesymau am y cynnydd, yr effaith ar yr achos busnes yn gyffredinol a'r effaith ariannol ar refeniw a refeniw a chyfalaf wedi'u cyfuno. Esboniodd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes bod rhai costau wedi cynyddu'n ddilys, rhai am resymau anhysbys, roedd wedi negodi i liniaru'r cynnydd hwnnw cyn belled â phosibl ac o safbwynt y senario gwaethaf posibl roedd yr achos busnes yn dal i gefnogi'r symudiad. | |
| 12.5 | Nododd y Bwrdd nad oedd y sefyllfa wedi'i datrys yn llawn, ond ar y sail fod: | |

**Bwrdd Swyddfa Archwilio Cymru**
**Cofnodion y cyfarfod ddydd Mercher 12 a dydd Iau 13 Chwefror 2025**

| Eitem | Cofnodion | Cam Gweithredu |
|---|---|---|
| | • yr achos busnes yn dal i gyfiawnhau'r symudiad (ag arbedion refeniw o £130,000 ac arbedion refeniw a chyfalaf o £200,000 o safbwynt y senario gwaethaf posibl); ac<br>• y byddai'r EDAS yn gweithio gyda'r Pennaeth Gwasanaethau Busnes i ddatrys y sefyllfa TAW,<br>cymeradwyodd bwrw ymlaen â'r symudiad ac awdurdododd y Pennaeth Gwasanaethau Busnes i gyfarwyddo'r contractwyr i gychwyn y gwaith ailwampio. | |
| **13** | **Adroddiad y Cadeirydd, gan gynnwys Allbynnau'r Diwrnod Datblygu** | |
| 13.1 | Rhoddodd y Cadeirydd yr wybodaeth ddiweddaraf i'r Bwrdd am ei weithgarwch ers y cyfarfod diwethaf, gan amlygu gwerth mynd i'r Pwyllgor Ansawdd Archwilio a'r parch mawr sydd gan sefydliadau eraill tuag at Archwilio Cymru. | |
| 13.2 | Cyflwynodd, a chadarnhaodd y Bwrdd ei fod yn fodlon â:<br>• ei raglen ddatblygu ar gyfer 2025-26; a'i<br>• gynllun busnes (blaenoriaethau) 2025-26. | |
| **14** | **Adolygiad o'r flaenraglen waith** | |
| 14.1 | Trafododd y Bwrdd y flaenraglen waith y byddai Ysgrifennydd y Bwrdd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf amdani. | |
| **15** | **Unrhyw faterion eraill** | |
| 15.1 | Trafododd y Bwrdd yn gryno sut ellid datblygu gwybodaeth adrodd ariannol Archwilio Cymru i gynnig mwy o eglurder, am gynhyrchu incwm er enghraifft, ac i gynorthwyo rhagolygon gwell. Byddai'r Cadeirydd yn trafod hyn gyda'r EDCS a'r EDAS. | Cadeirydd, EDCS, EDAS |
| **16** | **Adolygiad o'r cyfarfod** | |
| 16.1 | Gwahoddodd y Cadeirydd adborth ar y cyfarfod ac awgrymodd aelodau y byddant yn gwerthfawrogi crynhoi rhai cyfarfodydd i un sesiwn pan fo'n ymarferol. Byddai'r Cadeirydd ac Ysgrifennydd y Bwrdd yn ystyried hyn wrth gynllunio'r flaenraglen waith. | Cadeirydd / Ysgrifennydd y Bwrdd |
| **17** | **Dyddiad y cyfarfod nesaf:** | |
| 17.1 | Cynhadledd Staff Cyfan, dydd Mercher 19 Mawrth 2025, Caerdydd<br>Cyfarfod Bwrdd, dydd Iau 20 Mawrth 2025, Caerdydd | |